COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGORA 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR 2019, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PJ White, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

15. DATGAN BUDDIANT

Dim.

16. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cabinet yn wir a chywir:-

Cyfarfod arbennig - 13 Tachwedd 2019
Cyfarfod arferol - 19 Tachwedd 2019

17. STRATEGAETH EIDDO GWAG

Cyflwynodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r Strategaeth Eiddo Gwag 2019-2023 sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad yn ffurfiol.

Wrth esbonio'r cefndir, cadarnhaodd fod defnyddio eiddo gwag o'r newydd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol, a bod arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i hynny. Mae'r Strategaeth yn nodi'r bwriad y bydd "y Cyngor" a'i bartneriaid yn ceisio lleihau nifer yr adeiladau gwag ar draws y Fwrdeistref sirol a helpu i gyfrannu at gynyddu nifer y tai sydd ar gael i'w gwerthu neu eu rhentu.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, mae Gweithgor Eiddo Gwag wedi cael ei ffurfio, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob gwasanaeth o fewn yr Awdurdod sy'n gweithio gydag eiddo gwag. Prif amcan y Gweithgor yw cyflawni'r amcanion strategol, sef gwneud defnydd o'r newydd o eiddo preswyl sydd wedi bod yn wag ers cyfnod hir.

Mae'r Gymdeithas Landlordiaid Cofrestredig yn cydnabod effaith eiddo gwag ar ardal a'r gymuned, ac roeddent yn croesawu'r cynigion, ac yn cadarnhau bod angen strategaeth gadarn sy'n egluro'r sancsiynau a'r mesurau gorfodi sydd ar gael.

Mae sawl diweddariad wedi cael eu cyflwyno i'r Strategaeth ddrafft, ac amlinellwyd y rhain ym mharagraff 4.6 yr adroddiad.

O ran y cynnydd hyd yma, dywedodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth, yn ogystal ag adrodd yn flynyddol ar y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer eiddo gwag, y bydd y gwaith sy'n deillio o'r Strategaeth yn cael ei fesur ac yn destun adroddiadau ynghylch ansawdd y gwaith ymgysylltu a gorfodi a gyflawnwyd. Y nod fydd dangos yr ymdrechion i sicrhau bod adeiladau gwag yn cael eu defnyddio o'r newydd. Bydd hyn yn cynnwys cofnodi nifer y llythyrau a ddosbarthwyd, yr ymatebion a gafwyd a'r camau gorfodi a gymerwyd. Dangoswyd peth o'r wybodaeth ystadegol hyd yma yn gysylltiedig â hyn ym mharagraff 4.7 yr adroddiad.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, o blith y 20 eiddo mwyaf problemus a aseswyd ac y dyfarnwyd sgôr iddynt gan y Cyngor drwy ddefnyddio'r meini prawf yn y Strategaeth, mae:-

5 - bellach yn cael eu defnyddio
2 - wedi'u rhestru ar ocsiwn y mis hwn
5 - yn destun trafodaeth ar gyfer camau gweithredu Adran 215 posib
2 - ar werth yn dilyn ymgysylltu helaeth
1 - yn cael ei ddal gan yr Adran Gynllunio gan fod ystlumod yn clwydo ynddo. Bydd angen Arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch hyn.
3 - ceisiadau grant wedi'u cyflwyno ond wedi'u gwrthod gan na fodlonwyd y meini prawf cymhwysedd
2 - yn destun trafodaeth â'r adran gyfreithiol ynghylch camau gorfodi pellach.

Bydd ymyrraeth y Strategaeth yn cael ei mesur, ac adroddiadau'n cael eu llunio ar hynny, er mwyn esbonio maint y gwaith ymgysylltu a gorfodi a gyflawnwyd.

Cwblhaodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth ei gyflwyniad drwy gadarnhau bod 1296 o dai'r sector preifat yn wag am chwe mis neu fwy ym mis Ebrill 2019. Mae hyn i gyfrif am 2% o eiddo preswyl.

Mynegodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ddiolch i'r Gweithgor Eiddo Gwag a diolchodd am y gwelliannau yr oeddent wedi'u cyflwyno, o ran cyflawni'r amcanion strategol o wneud defnydd o'r newydd o dai sydd wedi bod yn wag ers cyfnod hir. Ychwanegodd ei bod yn edrych ymlaen i weld cynnydd pellach yn y dyfodol, tuag at greu mwy o gartrefi cyfanheddol yng nghymoedd y Fwrdeistref Sirol, lle'r oedd nifer sylweddol o gartrefi'n wag o hyd.

Roedd yr Arweinydd yn falch o weld bod Eiddo Gwag yn y Fwrdeistref Sirol wedi cael ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol, ac y byddai'n cael ei ailystyried ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf er mwyn mesur cynnydd. Yn y dyfodol, yr oedd yn gobeithio y byddai'r Cyngor yn ystyried gosod premiwm ar y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo sydd yn dal i fod yn wag am gyfnod hir, oherwydd teimlai y dylai cartrefi gwag gael eu meddiannu lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

PENDERFYNWYD: Mabwysiadodd y Cabinet hwnnw Strategaeth Eiddo Gwag 2019-2023 yn ffurfiol.

18. CRONFA HER ECONOMI SYLFAENOL LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am gais am gyllid o Gronfa Her economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru, a gofyn

am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn cynnig am gyllid ac ymrwymo i gytundebau â phartneriaid darparu fel bo'n briodol.

Fel gwybodaeth gefndirol, roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru o'r farn fod yr economi sylfaenol yn cynnwys gwasanaethau a chynnyrch sylfaenol y bydd pobl yn dibynnu arnynt i gadw'r boblogaeth yn ddiogel, yn gysurus a gwâr. Dangoswyd enghreifftiau o'r economi sylfaenol yr oedd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio atynt ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.

Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod ymagwedd Llywodraeth Cymru at gefnogi a datblygu'r economi sylfaenol yn canolbwyntio ar dri maes, fel y manylwyd ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.

I gefnogi hyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r canlynol: -

- Cynllun Gweithredu Economaidd (CGE) a oedd wedi pennu'r cyfeiriad ar gyfer ymagwedd ehangach a mwy cytbwys at ddatblygu economaidd, gan symud tuag at ffocws ar 'le' a chryfhau a chynyddu cydnerthedd cymunedau.

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bwrdd Cynghori Gweinidogol ar yr Economi Sylfaenol er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch ymyraethau ac arfer gorau cyfredol a'r dyfodol; cefnogi ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid yn yr economi sylfaenol; a hyrwyddo cydgysylltu mentrau perthnasol o fewn y llywodraeth a thu hwnt.

Roedd hyn yn cynnwys cronfa £4.5 miliwn i gefnogi Cronfa'r Economi Sylfaenol.

Yn dilyn lansiad y gronfa, cyflwynodd Swyddogion gais i ariannu prosiect B-Ridges ym mis Gorffennaf 2019.

Ychwanegodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru fod y cynnig ar gyfer prosiect B-Ridges wedi'i gymeradwyo. Bydd gan y prosiect B-Ridges is-bennawd: Sir Pen-y-bont ar Ogwr - Manwerthu | Buddsoddi | Datblygu | Tyfu | Esblygu | Cynnal.

Nod y prosiect B-Ridges yw creu pecyn cymorth i ganiatáu i fusnesau sy'n cychwyn yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg ddod yn gynaliadwy. Caiff yr ardaloedd hyn eu targedu am eu bod o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd ac felly'n gymwys i dderbyn y cyllid sydd wedi'i glustnodi. Fodd bynnag, bydd swyddogion yn ymgysylltu â chyllidwyr eraill er mwyn chwilio am gyfleoedd i ehangu'r dull a fabwysiadwyd gan y prosiect B-Ridges ymhellach i ardaloedd eraill yn y Fwrdeistref Sirol.

Ar gyfer cais prosiect B-Ridges cynigiwyd grant o £75k tuag at gyfanswm cost prosiect o £100k, gyda'r bwlch o ran cyllid wedi'i gyflenwi drwy raglen gyllido 'Kickstart'.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio y byddai'r cyllid o fudd i fusnesau sy'n ystyried eu sefydlu eu hunain yn nhrefi Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg. Llongyfarchodd y Swyddogion am chwilio am y fath gyfleoedd cyllido.

Ychwanegodd yr Arweinydd, pe bai'r cynllun yn llwyddiannus a mwy o gyllid yn cael ei sicrhau hyn y dyfodol, y byddem yn ystyried gweithredu hynny mewn trefi eraill yn y Fwrdeistref Sirol, hy, Porthcawl a Phencoed.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

(1) Yn nodi'r cyllid a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni prosiect B-Ridges i dreialu dulliau newydd o alluogi busnesau newydd yn yr economi sylfaenol ddechau masnachu o ganol trefi; rhoi cymorth fel bod unedau sy'n wag ar hyn o bryd yn cael eu meddiannu; darparu cymorth cyngor busnes i fusnesau sy'n cychwyn yn yr economi sylfaenol; cynorthwyo busnesau newydd i greu swyddi newydd.

(2) Yn awdurdodi'r Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i ymrwymo i gytundebau priodol i dderbyn y cyllid a chyflawni'r prosiect.

19. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD 'LLUNIO DYFODOL PEN-Y-BONT AR OGWR'

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog A151 Dros Dro adroddiad a hysbysai'r Cabinet ynghylch canlyniad ymgynghoriad 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' 2019, a ofynnai i ddinasyddion rannu eu barn ynghylch nifer o gynigion allweddol yn gysylltiedig â'r gyllideb sydd dan ystyriaeth dros gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gweithgarwch ymgynghori, dadansoddi a'r prif ganfyddiadau.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Cyngor bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng ei gyllideb o £27.07miliwn dros y pedair blynedd diwethaf, ac mai'r disgwyl oedd y byddai angen gostyngiadau sylweddol pellach dros y pedair blynedd nesaf.

Ychwanegodd fod ymarfer ymgynghori cyhoeddus wedi cael ei gynnal dros gyfnod o wyth wythnos o 9 Medi 2019 hyd 3 Tachwedd 2019. Gofynnwyd i'r ymatebwyr rannu eu barn ar ystod o gynigion yn gysylltiedig â'r gyllideb sydd dan ystyriaeth rhwng 2020-21 a 2023-24, gan gynnwys cynnig i godi'r dreth gyngor ac ystyried cwtogi gwasanaethau gan gynnwys glanhau strydoedd, TCC, rheoli pla, digwyddiadau canol y dref, gwasanaethau dysgu i oedolion, gwasanaethau cymorth addysg, yn ogystal â chau un o'i dair canolfan ailgylchu gymunedol.

Disgrifiai'r adroddiad sut yr oedd proses ymgynghori'r gyllideb, yn nhermau ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch hyn, wedi esblygu ers cyflwyno'r broses honno yn 2013-14, gan gynnwys ymgynghori â grwpiau oedran amrywiol a oedd yn cynnwys y genhedlaeth iau mewn cymdeithas.

Ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad A yr oedd Adroddiad Ymgynghori a nodai'r farn a fynegwyd gan rai a oedd wedi cymryd rhan yn y broses eleni, ynghyd â'r gyfradd ymateb a'r dulliau rhyngweithio a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr ar ffurf tabl ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

Ar ôl hynny, roedd paragraff 4.4 yn esbonio'r prif ffigurau a themâu a godai o'r ymgynghoriad cyhoeddus, a rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o'r rhain er budd yr Aelodau.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod 3,417 o ymatebion i'r arolwg wedi dod i law, a bod hynny'n cynrychioli cynnydd o 27% o gymharu â chyfanswm y llynedd o 2,677 o ymatebion. Teimlai fod hyn yn welliant sylweddol yn y broses ymgynghori. Roedd hyn yn rhoi darlun cywirach i'r Cyngor o'r hyn yr oedd y cyhoedd am wario arian arno/ei gwtogi yn nhermau'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod ac ati.

Mynegodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ddiolch i sefydliadau fel Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr a Halo am gynnal rhai o'r sesiynau hefyd, a hynny dros ardaloedd eang sy'n rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Nododd fod 3,417 o arolygon wedi cael eu cwblhau, a gofynnodd faint o'r arolygon hynny a gwblhawyd yn Gymraeg.

Dywedodd y Swyddog Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod 12 o ymatebion wedi dod i law yn Gymraeg, a 5 o'r rheiny o'r Panel Dinasyddion.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol hefyd, o'r holl Ganolfannau Cymuned ac Ysgolion yr ymwelwyd â hwy, a oedd unrhyw brif wahaniaethau yn nhermau'r adborth a gafwyd rhwng gwahanol grwpiau.

Cadarnhaodd y Swyddog Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod yr adborth gan bobl iau yn adlewyrchu barn fwy cytbwys na barn rhai aelodau o'r genhedlaeth hŷn o bosib, yn yr ystyr eu bod yn dymuno gwarchod amrywiaeth fwy o wasanaethau.

Teimlai'r Aelod Cabinet - Cymunedau fod y broses ymgynghori yn datblygu'n fwyfwy gwerthfawr ac ystyrlon o'r naill flwyddyn i'r nesaf, wrth i gyfranogiad y cyhoedd gynyddu dros y cyfnod hwnnw. Roedd y cyhoedd yn dechrau cael dealltwriaeth well hefyd o'r pwysau sydd o flaen y Cyngor (hefyd o'r naill flwyddyn i'r nesaf), oherwydd y toriadau parhaus i'w gyllideb.

Cytunai'r Prif Weithredwr â hyn, gan ychwanegu bod Swyddogion wedi rhoi esboniad i'r cyhoedd yn y sesiynau ymgynghori ynghylch y meysydd gwasanaeth lle'r oedd hi'n haws cyflwyno toriadau. Cafodd agweddau eraill perthnasol eu hesbonio hefyd, er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng gwariant cyfalaf a gwariant refeniw ac ati.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben drwy ddiolch i Lywodraeth Cymru am y cynnydd o 4.7% i'r setliad y byddai'r Cyngor yn ei dderbyn yn y flwyddyn i ddod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â buddiant, fel y nodir yn yr adroddiad ymgynghori.

20. GRANT ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad a ofynnai am gymeradwyaeth y Cabinet i ymrwymo i gytundeb â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("RhCT"), Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ynghylch Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019/20.

Roedd gwybodaeth gefndir yn yr adroddiad yn cadarnhau mai cynllun grant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r Grant Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019/20 ("y Grant ADY"). Pwrpas y cynllun yw cynorthwyo i gyflenwi'r rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys paratoi i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2019 ("Deddf ADYTA") a rheoli gweithrediad y Ddeddf honno.

Roedd RhCT, a oedd yn gweithredu fel Awdurdod Arweiniol, wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am y grant ADY ar ran y Cyngor, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a darparwyr trydydd parti (sef y sector addysg uwch a byrddau iechyd lleol yn rhanbarthau'r cyngor).

Bu'r cais am Grant ADY yn llwyddiannus a dyfarnwyd cyllid o hyd at £949,656.00 i RhCT fel Awdurdod Arweiniol. Bydd y cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu i bob Cyngor yn unol â'r Cynllun Trawsnewid ADY.

Fel Awdurdod Arweiniol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei bod hi'n ofynnol i RhCT dderbyn telerau ac amodau'r Grant ADY fel y nodwyd yn llythyr cynnig Llywodraeth Cymru. Er mwyn cyflawni'r prosiect a sicrhau cydymffurfiaeth â'r telerau ac amodau a nodwyd yn y llythyr cynnig, mae RhCT yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, ynghyd â'r 3 awdurdod lleol arall a restrir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad, ymrwymo i gytundeb yn gysylltiedig â'r Grant ADY hwn. Bydd y cytundeb hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r cynghorau a sut y dyrennir y cyllid.

Ychwanegodd fod arweinwyr y Gwasanaeth Cynhwysiant o bob awdurdod lleol yn cyfarfod yn fisol â'r Arweinydd Trawsnewid ADY o'r Bwrdd Trawsnewid. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Cynllun Gweithredu ADY a gwariant y grant yn cael eu monitro.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio, fod y cyllid a sicrhawyd yn gwneud llawer i gefnogi rhai o ddarpariaethau Deddf ADYTA a'r maes angen cynyddol ar gyfer pobl ag ADY.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:

(1) Yn cymeradwyo y dylai'r Cyngor ymrwymo i'r cytundeb â RhCT, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

(2) Yn rhoi awdurdod dirprwyol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio i negodi a chytuno ar delerau'r cytundeb ac ymrwymo i'r cytundeb.

## 21. DEDDF TRWYDDEDU 2003, DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU AC ASESIAD EFFAITH GRONNUS

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu adroddiad a drafodai rôl y Cyngor fel awdurdod trwyddedu, fel corff rheoleiddio ar gyfer tafarndai, clybiau, siopau diodydd trwyddedig a siopau cludfwyd sydd ar agor yn hwyr yn y nos.

Pwrpas yr adroddiad oedd gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu ar gyfer y cyfnod nesaf o bum mlynedd, ac i gymeradwyo Polisi ac Asesiad Effaith Gronnus arbennig yn rhan o'r broses honno.

Esboniodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod yn rhaid i'r Cyngor gyflawni ei swyddogaethau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a ganlyn:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Atal niwsans cyhoeddus;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Amddiffyn plant rhag niwed

Cadarnhaodd fod y Cyngor wedi dod yn Awdurdod Trwyddedu yn 2005, a'i bod hi bellach yn bryd cynnal adolygiad pum mlynedd o Ddatganiad y Polisi Trwyddedu. Proses ffurfiol yw hon, ac amlinellwyd y broses statudol ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Esboniodd fod yr Ymgynghoriad ar hyn yn cael ei gynnal ar-lein rhwng 17 Mehefin 2019 a 9 Medi 2019. Roedd yr ymgyngoreion statudol yn cynnwys yr Heddlu, yr Awdurdod

Tân, y Cydwasanaethau Rheoleiddio, y Bwrdd Iechyd Lleol, adrannau eraill y Cyngor a'r Swyddfa Gartref.

Yr oedd hefyd yn cynnwys yr holl Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, Rheolwr Canol y Dref a chynrychiolwyr masnach.

Yn Natganiad y Polisi Trwyddedu nodir sut mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau a'i ymagwedd at benderfyniadau. Nodir hefyd yr hyn y mae'n disgwyl i ddarpar ymgeiswyr ei ystyried wrth baratoi ceisiadau am drwyddedau newydd neu amrywiadau o bwys. Yn adran 9 y polisi hwn nodir nifer o fesurau y gellid eu hystyried, yn dibynnu ar natur yr eiddo. Cynghorodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu, ar wahân i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, nid oedd unrhyw dueddiadau na materion newydd yn deillio o'r ymgynghoriad a fyddai'n teilyngu newid polisi. O ganlyniad i hynny, roedd y Datganiad cyffredinol arfaethedig wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd fod y newidiadau i'r datganiad hwnnw wedi'u hamlygu yn goch. Roedd a wnelo'r diweddariadau cyntaf ag amcanion corfforaethol y Cyngor. Roedd siâp neu lefelau meysydd cyfrifoldeb nifer o Gyfarwyddiaethau wedi newid, ac ar sail hynny, roedd angen edrych ymhellach ar rai diwygiadau ar dudalen 40 yr adroddiad, hy, lle'r oedd angen diweddaru rhai o gyfeiriadau'r cyrff a restrwyd yno.

Esboniodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod a wnelo'r ail fater â'r Polisi Effaith Gronnus Arbennig sydd ar waith yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.
Mae Effaith Gronnus yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sut y gall dwysedd eiddo trwyddedig mewn ardal neilltuol gael effaith negyddol ar drosedd ac anhrefn, sbwriel wedi'i ollwng, ymddygiad gwrth-gymdeithasol a niwsans. Os bydd y Cyngor yn gweld bod tystiolaeth o broblem mewn ardal, gall gynnwys polisi i ymdrin ag Effaith Gronnus o fewn y prif Ddatganiad Polisi. Bu polisi o'r fath yn weithredol ar Strydoedd Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ers 2005. Effaith y polisi yw rheoli faint o eiddo newydd neu newidiadau o bwys i eiddo a geir o fewn yr ardal. Mae'r polisi i bob pwrpas yn creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy yn gysylltiedig â phob cais neu amrywiad newydd, oni all yr ymgeisydd ddangos na fydd ei eiddo yn ychwanegu at y problemau a geir yn y lleoliad dan sylw.

Y prif newid eleni yw bod yn rhaid i'r Cyngor gynnal Asesiad Effaith Gronnus a chyhoeddi dogfen ar wahân cyn mabwysiadu polisi ar gyfer ardal benodol.

Aeth yn ei blaen i esbonio fod Heddlu De Cymru yn gofyn i'r Cyngor gadw'r polisi sy'n gysylltiedig â strydoedd Heol Derwen, Stryd y Farchnad, Stryd Wyndham a rhannau o Stryd Nolton ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd llythyr oddi wrth yr Heddlu i'r perwyl hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad.

O ran yr amcanion trwyddedu, roedd Heddlu De Cymru wedi casglu bod cael polisi effaith gronnus wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ostwng cofnodion trosedd yng nghanol y dref yn ogystal ag achosion o riportio ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ychwanegodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod yr Asesiad drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad. Yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd fod holiadur wedi'i gynnwys i nodi materion sy'n destun pryder yn gysylltiedig ag eiddo trwyddedig yng nghanol y dref.

Mae maint y sampl, sef cyfanswm o 15, yn fach, ac fe gafwyd ymateb gan aelodau o'r cyhoedd, partïon â buddiant a deiliaid trwydded i'r ymgynghoriad hwnnw.
Roedd 93% o blaid cadw'r polisi effaith gronnus ac roedd y prif faterion a oedd yn destun pryder wedi'u rhestru ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 4.7 yr adroddiad.

Roedd y polisi yn un o gyfres o fesurau y gellir eu defnyddio i reoli effaith eiddo trwyddedig, gan gynnwys gorfodi, defnyddio TCC a chynlluniau masnach fel Pubwatch.

Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu mai casgliad yr asesiad oedd bod tystiolaeth i gefnogi parhau â'r polisi effaith gronnus yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, a bod hynny'n weithred gymesur er mwyn ymdrin â'r problemau a nodwyd yno.

Effaith mabwysiadu'r polisi hwn fydd creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau am eiddo newydd neu i amrywio eiddo presennol yn cael eu gwrthod, lle bo sylwadau perthnasol yn dod i law, yn fwyaf tebygol oddi wrth yr heddlu yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, er y gallai'r sylwadau hynny ymwneud â niwsans cyhoeddus hefyd, oni all yr ymgeisydd ddangos na fydd y cais yn ychwanegu at yr effaith negyddol ar strydoedd canol y dref sydd wedi'u cynnwys yn y polisi

Er nad polisi cyffredinol oedd y polisi hwn, mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y gweithredwr.

Os nad oedd yr awdurdodau cyfrifol na'r cyhoedd yn pryderu o gwbl am arddull arfaethedig na gweithrediad yr eiddo, ac nad oeddent yn cyflwyno unrhyw sylwadau, byddai'r cais yn cael ei ganiatáu.

Daeth y Rheolwr Tîm - Trwyddedu â'i chyflwyniad i ben drwy gadarnhau bod y polisi'n anelu i leihau'r achosion o drosedd ac anhrefn a phroblemau'n gysylltiedig ag alcohol, a sicrhau bod Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn amgylchedd diogel i bobl sy'n ymweld â'r ardal ac yn gweithio ynddi.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ei bod hi'n braf nodi y byddai'r Polisi diwygiedig yn cyfrannu'n sylweddol at liniaru pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn enwedig yn yr ardaloedd gorlawn hynny o'r dref lle ceir nifer sylweddol o sefydliadau sydd ar agor yn hwyr yn y nos yn agos at ei gilydd.

Mynegodd yr Arweinydd siom yn nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, gan gyfeirio hefyd at y ffaith y dylid cyfeirio at bob un o'r pedair tref yn y Fwrdeistref Sirol yn y Polisi hwn, a'u cynnwys ynddo.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad a fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor ar 18 Rhagfyr 2019.

## 22. Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnwys eitemau ar y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr hyd 30 Ebrill 2020.

Cadarnhaodd, yn unol â darpariaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor, y byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei llunio gan y Swyddog Monitro ac yn trafod cyfnod o bedwar mis fel rheol. Byddai hefyd yn cynnwys materion yr oedd y Cabinet, y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Cyngor yn debygol o'u hystyried.

Dangoswyd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y cyfnod nesaf a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad, fel a ganlyn:-

- Cabinet - Atodiad 1
- Cyngor - Atodiad 2
- Trosolwg a Craffu - Atodiad 3

Nododd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, o'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r adroddiad, fod rhai testunau diddorol ar Flaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac, oherwydd hynny, y gallai fod yn werth ystyried gwe-ddarlledu rhai o'r cyfarfodydd hyn er budd y cyhoedd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:-

- Yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr hyd 30 Ebrill 2020 yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- Yn nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg Chraffu, fel y'u dangoswyd yn Atodiad 2 a 3 yr adroddiad, yn y drefn honno.

23. ADRODDIADAU I'W NODI ER GWYBODAETH

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad a hysbysai'r Cabinet ynghylch Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi (wedi'i atodi i'r adroddiad), a oedd wedi cael ei gyhoeddi ers ei gyfarfod diwethaf.

Dangoswyd manylion yr Adroddiad Gwybodaeth ym mharagraff 4.1 yr adroddiad cyflwyno.

Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio, a'r Arweinydd yn ei dro, bob un o'r tair ysgol yn dilyn adolygiad diweddar Ysgol Gynradd West Park; ailymweliad ag Ysgol Gynradd Tynyrheol a'r adolygiad o gynnydd yn Ysgol Gyfun Cynffig.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod bod y ddogfen a restrwyd yn yr adroddiad wedi'i chyhoeddi.

24. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:50